# LLOYD, HUMPHREY (1610 - 1689), esgob Bangor

**Enw:** Humphrey Lloyd
**Dyddiad geni:** 1610
**Dyddiad marw:** 1689
**Priod:** Jane Lloyd (née Griffith)
**Plentyn:** Richard Lloyd
**Plentyn:** John Lloyd
**Plentyn:** Francis Lloyd
**Rhiant:** Jane Lloyd (née Hughes)
**Rhiant:** Richard Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** esgob Bangor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Emyr Gwynne Jones

Ganwyd ym Mod-y-fudden, Trawsfynydd, Gorffennaf neu Awst 1610, yn drydydd mab Richard Lloyd, D.D., (1573/4–1647?) ficer Rhiwabon, a Jane, (bu farw yn neu wedi 1648), merch Rhydderch Hughes, Maesypandy, ac wyr i Howel Lloyd, Dulasau, Penmachno. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 25 Ionawr 1627/8, eithr graddiodd yn B.A. yng Ngholeg Oriel, 1629. Daeth yn M.A. yn 1635 a gwnaed ef yn D.D. yn 1661.

Yn 1647, ar farw ei dad, apwyntiwyd ef i ficeriaeth Rhiwabon, ac yntau er 1627(?) yn dal rheithoraeth Erbistock. Yn 1650 trowyd ef allan o Riwabon yn ogystal ag o brebend yn eglwys gadeiriol Caer gan y Pwyllgor er Taenu'r Efengyl yng Nghymru. Yn y cyfamser fe'i cyflwynasid i brebend Ampleforth yn eglwys gadeiriol Caerefrog gan yr archesgob John Williams, a oedd eisoes wedi ei benodi'n gaplan iddo; eithr ni allwyd ei sefydlu oherwydd ymgyrch byddin Sgotland.

Ar adferiad y brenin Siarl II, adferwyd ef i Riwabon; llwyddodd hefyd yn ei gais am brebend Ampleforth, ond methodd gael deoniaeth Bangor. Yn 1663, fodd bynnag, daeth yn olynydd i'r Dr. David Lloyd fel deon Llanelwy a rheithor Henllan, bywoliaeth a oedd yn gysylltiedig â'r ddeoniaeth. Yn Llanelwy, amlygodd ei hun trwy ei wrthwynebiad pendant a digymrodedd i gais a wnaed i osod degymau a phroffidau Whitford ar brydles i Syr Roger Mostyn. Yn 1673 fe'i symudwyd o Riwabon i reithoraeth Gresford, ac ar 5 Ionawr 1673/4 gorseddwyd ef yn esgob Bangor. Trwy Act arbennig yn 1685 cafodd gan y Senedd gysylltu wrth yr esgobaeth archddeoniaethau Bangor a Môn, rheithoraeth segur Llanrhaeadr Dyffryn Clwyd, a dwy ran o dair o 'gyfrannau' ('comportionary tithes') Llandinam er cynhalieth adeilad a chôr yr eglwys gadeiriol. Daeth ymdrechion Lloyd i feddiannu 'cyfrannau' Llandinam ag ef i wrthdrawiad â William Sancroft, archesgob Caergaint, a aeth mor bell â'i gyhuddo ar un achlysur o fod yn drachwantus, onid hyd yn oed yn lluosogwr. Yn yr ymryson hwn yn ogystal ag yn hwnnw dros brydlesoedd Whitford y gwelir yr esgob Lloyd ar ei orau fel dadleuydd medrus a dygn.

Nid oedd ganddo ddim cydymdeimlad â gwaith Thomas Gouge a'r Welsh Trust, a gwawdiai'r ymgyrch i gasglu tanysgrifiadau at argraffiad Cymraeg newydd o'r *Beibl*. Dywaid Humphrey Humphreys i Gouge ei gythruddo'n arbennig trwy ddileu enw Lewis Bayly oddi ar ddalen-deitl argraffiad Cymraeg 1675 o *The Practice of Piety (Yr Ymarfer o Dduwioldeb)*, ac i Lloyd ei hun sgrifennu enw'r awdur ar y copiau a oedd i'w dosbarthu yng nghymdogaeth Bangor.

Priododd Jane, merch John Griffith yr ieuengaf o Gefnamwlch a gweddw Owen Brereton o Fwras; bu iddynt dri mab: John, Francis, a Richard. Bu farw 18 Ionawr 1689, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Bangor.

## Awdur

**Emyr Gwynne Jones**, (1911 - 1972)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r awdurdodau a cnwir yno

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 330

Browne Willis, *A survey of the cathedral church of Bangor; and the edifices belonging to it ...* (1721), 116-8

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654–1662* (1923), 325, 334, 338, ibid., *Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925), 132, n., 138, 151, 159-60, 169, ac yn *Archaeologia Cambrensis*, 1925, 45-74, a *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*; 1924-5, 1-76

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20) (gol. Bliss), ii, 529-30,

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Humphrey Lloyd

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q14508516

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu